# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ40008, a gyhoeddwyd gan Sue Essex, y Gweinidog Cyllid, ar 20 Rhagfyr 2004

**At Michael German:**

Yng nghwestiynau'r Prif Weinidog ar 30 Tachwedd, fe godwyd cwestiwn gennych ynghylch y cynnydd yng nghyllideb derfynol Swyddfa Cymru. Addawodd y Prif Weinidog ddarparu ateb ysgrifenedig ar eich cyfer. Gan fod hwn yn fater sy'n ymwneud â manylion y gyllideb, sy'n gyfrifoldeb i mi fel y Gweinidog Cyllid, mae'n briodol i mi ymateb.

Mae Swyddfa Cymru'n gwbl ymwybodol o'r angen i reoli ei gostau. Ni fu unrhyw gynnydd yng nghostau rhedeg Swyddfa Cymru.

Soniodd Peter Hain am y mater yn ei ymateb i chi yn ystod y Ddadl ar Araith y Frenhines yn y Cynulliad y diwrnod canlynol. Mae'r newid yn y gyllideb derfynol yn adlewyrchu costau rhai gwasanaethau a oedd, tan y llynedd, yn cael eu darparu gan y Cynulliad ar gyfer Swyddfa Cymru. Bellach, yr Adran Materion Cyfansoddiadol neu drydydd partïon sy'n cyflenwi'r gwasanaethau hyn i Swyddfa Cymru, ac mae'r ddarpariaeth berthnasol yn y gyllideb wedi'i throsglwyddo o'r Cynulliad. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys technoleg gwybodaeth, newidiadau i wasanaethau, teleffonau, llety, rhent, cyfieithu a newidiadau cyfalaf cysylltiedig.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ynghylch manylion cyllideb Swyddfa Cymru, yna dylech eu cyfeirio at Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

## Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar Ddeddf Addysg Uwch 2004 ar 30 Tachwedd 2004 a gyhoeddwyd gan Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 21 Rhagfyr 2004

**At Peter Black:**

Yn ystod y ddadl ar gymeradwyo Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru), dywedais y byddwn yn ysgrifennu atoch gyda manylion ynghylch achosion a godwyd cyn dynodi dyfarnydd o dan y Ddeddf. Yr oedd eich cwestiwn yn canolbwyntio'n benodol ar achosion mewn sefydliadau lle nad oedd ymwelydd, ac felly mae fy ymateb yn ymwneud â'r achosion hynny.

Mae'r cynllun a gyflwynwyd gan Swyddfa'r Dyfarnydd Annibynnol i'w gymeradwyo o dan amodau'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau'n ymwneud â pha achosion sy'n gymwys, a'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno achosion. Mae'r cynllun arfaethedig yn pennu terfyn amser o dri mis ar gyfer cyflwyno achos i'r dyfarnydd, lle na fodlonwyd yr achwynydd ar ôl dilyn a chwblhau pob proses mewnol. Mae peth hyblygrwydd o fewn y rheolau i ganiatáu i'r adolygydd ymestyn y terfyn amser os ydyw'n teimlo bod rheswm da dros wneud hynny. Fodd bynnag, ni fwriedir i'r ddarpariaeth hon gael ei defnyddio fel arfer i dderbyn achosion sydd yn ddwy neu'n dair blwydd oed. Wrth sefydlu cyrff cyffelyb mae'n arferol i bennu terfyn amser ar gyfer hen achosion.

O ran y trefniadau trosiannol, ni fyddai'r dyfarnydd yn gallu ystyried achosion sydd eisoes yn cael eu hystyried gan y llysoedd, sydd wedi dilyn a chwblhau pob gweithdrefn fewnol, neu sydd wedi'u cyflwyno i ymwelydd mewnol cyn 1 Ionawr 2005. Fodd bynnag, o dan y rheolau trosiannol bydd y dyfarnydd yn parhau i ystyried achosion a gyflwynwyd o dan y cynllun gwirfoddol, gan gynnwys rhai a gyflwynwyd gan ymwelydd. O ran achosion newydd, bydd y

dyfarnydd yn gallu derbyn achosion pan fo'r gweithdrefnau mewnol oll wedi'u cwblhau ar 1 Hydref neu ar ôl hynny.

Hyderaf fod hyn yn ateb eich ymholiad.